**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.
Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay.
Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

RHONDDA CYNON TAF

Perchennog / Meddiannydd

**Gofynnwch Am:** Lucy Griffiths **Dyddiad:** 14/08/2026
**Fy Nghyf:** IF276

Annwyl Perchennog / Meddiannydd,

**YMGYNGHORIAD STATUDOL**

**STRYD MORGANNWG, PENRHIWCEIBER – CYFYNGIADAU GWAHARDD AROS A LLWYTHO AR UNRHYW ADEG ARFAETHEDIG**

Mae’r Cyngor wedi datblygu cynigion i gyflwyno cyfyngiadau gwahardd aros a llwytho ar unrhyw adeg ar Stryd Morgannwg, ger y gyffordd sy'n arwain at Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn ym Mhenrhiwceiber. Mae'r cyfyngiadau yma wedi'u cynnig er mwyn:

- Osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd ac atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi.
- Hwyluso'r broses o deithio ar hyd y ffordd neu unrhyw ffordd arall sy'n cynnwys traffig o unrhyw fath (gan gynnwys cerddwyr)

Mae'r lleoliad sy'n cael ei effeithio yn agos iawn at fynedfeydd yr ysgol gynradd, felly mae nifer fawr o gerddwyr agored i niwed yn teithio yn yr ardal. O ganlyniad i hyn, mae helpu i sicrhau bod gan yrwyr a cherddwyr gwelededd gwell yn bwysig iawn.

Byddai’r cyfyngiadau gwahardd  aros a llwytho ar unrhyw adeg yn atal unigolion rhag parcio mewn modd sy’n rhwystro’r darnau o ffordd sydd wedi'u heffeithio. Byddai gwella gwelededd yn caniatáu mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw, megis cerddwyr neu gerbydau, a thrwy hynny'n lleihau'r perygl o wrthdrawiad. Byddai atal cerbydau rhag parcio ar hyd y darnau o ffordd sydd wedi’u heffeithio yn ei gwneud hi’n haws i gerbydau deithio a symud ar hyd y ffordd, a hynny o ganlyniad i gynnal lled y ffordd. Byddai hyn hefyd yn lleihau’r perygl o wrthdrawiad.

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau’r Amgylchedd**
**Director of Environmental Services**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Rhondda Cynon Taf County Borough Council**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,
Pontypridd, CF37 4TH
Ffôn/Tel: 01443 425001

DIOGELU DATA PROTECTION
**MAE EICH DATA O BWYS** www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
**YOUR DATA MATTERS** www.rctcbc.gov.uk/dataprotection
hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Byddai'r cyfyngiadau gwahardd aros hefyd yn berthnasol i'r darnau o lwybr troed sy'n rhedeg ar eu hyd, gan sicrhau bod y llwybrau troed yn glir o unrhyw gerbydau a allai rwystro'r llwybr troed. Felly, byddai hyn ei gwneud hi'n haws i gerddwyr deithio ar hyd y llwybr troed yma.

O ganlyniad i'r cynnig yma, bydd y Cyngor yn cynnal Ymgynghoriad Statudol.

**Dweud Eich Dweud**

Mae cyfnod o hysbysiad cyhoeddus ynglŷn â'r newidiadau yn ofyniad cyfreithiol, ble mae manylion y cynigion yn cael eu nodi. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd gyda nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Mae'r manylion ynglŷn â'r cynigion i'w gweld yn llun TM26/100/GA, sydd wedi'i atodi. Yn ogystal â hynny, mae modd bwrw golwg arno drwy fynd i: www.rctcbc.gov.uk/traffig.

Pe hoffech chi wneud sylwadau, anfonwch nhw'n ysgrifenedig, **erbyn 04/09/26**, ar gyfer sylw Rheolwr y GwasanaethauTraffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH neu drwy e-bostio **YmgynghoriadauTraffig@rctcbc.gov.uk** gan nodi cyfeirnod **'IF276'**.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor yn ystod y gwaith o ddod i benderfyniad. Bydd pob sylw sy'n ymwneud â'r cynllun yn cael ei ystyried, yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor. Byddwn ni'n ysgrifennu atoch chi maes o law gyda chanlyniad y penderfyniad ac yn rhoi gwybod i chi a ydyn ni'n bwriadu bwrw ymlaen â'r cynllun yn ei ffurf bresennol.

Yn gywir,

**Lucy Griffiths**
Y Garfan Rheoli Traffig

RHONDDA CYNON TAF

Owner/ Occupier

**Scheme Ref:** IF276 **Date:** 14/08/26

**Telephone Queries**: 01443 425001
**Please Ask For:** Lucy Griffiths - Traffic Management

Dear Sir/Madam,

**STATUTORY CONSULTATION**

**GLAMORGAN STREET, PENRHIWCEIBER – PROPOSED PROHIBITION OF WAITING AND LOADING AT ANY TIME RESTRICTIONS**

The Council has developed proposals to introduce prohibition of waiting and loading at any time restrictions in Glamorgan Street, at the junction leading into Perthcelyn Primary School in Penrhiwceibr. These restrictions are proposed in order to:

- Avoid danger to persons or other traffic using the road or any other road or to prevent the likelihood of any such danger arising
- Facilitate the passage on the road or any other road of any class of traffic (including pedestrians)

As the affected location is immediately at the accesses to the primary school there are a high number of vulnerable pedestrians travelling in the area. Therefore, helping to ensure that both pedestrians and drivers have an increased visibility of one another is of high importance.

The extents of prohibition of waiting and loading at any time restrictions would prevent obstructive parking at the affected lengths, resulting in an increase visibility and allowing drivers more time to react to hazards such oncoming vehicles and pedestrians, therefore reducing risk of collision. In turn by keeping the affected lengths clear of parking drivers would be able to manoeuvre said lengths with more ease due to road widths being better maintained, further reducing risk of collision.

The prohibition of waiting and loading at any time restrictions would also apply to the

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd**
**Director of Environmental Services**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Rhondda Cynon Taf County Borough Council**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,
Pontypridd, CF37 4TH
Ffôn/Tel: 01443 425001

lengths of footway running alongside, helping to keep them clear of parking which may otherwise obstruct the footway. In turn this would better facilitate passage for those pedestrians in the area travelling on said lengths of footway.

As a result of this proposal The Council are holding a statutory consultation.

**Give your views**

A period of Public Notice is a legal requirement, where details of the proposal is advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any observations they may have. Details of the proposal are shown in the attached drawing TM26/100/GA, this may also be viewed online at www.rctcbc.gov.uk/traffic.

If you wish to object to the proposal you should do so in writing via mail to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street, Pontypridd, CF37 4TH or by email at **TrafficConsultations@rctcbc.gov.uk** quoting reference **'IF276' by 04/09/2026.**

Your comments are important to us and will help the Council in its decision-making process. All observations relating to the scheme received during the Public Notice period will be taken into consideration, in accordance with the Council's Scheme of Delegation decision making process. You will be written to in due course with the outcome of the decision and informed as to whether the Council intend to proceed with the scheme in its present form.

Yours faithfully,

**Lucy Griffiths**
Traffic Management Team